**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 10 RHAGFYR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham (Cadeirydd), P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, D.Griffiths, C.Morris, S.Brennan, C.Furlow-Harris, P. Jackson, C.Jones, R.Headon, C.Davies, C.Plowman a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Cynghorydd D Jones - Parthed: Cyllid Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau 2020-21, gan ei bod yn ymddiriedolwr ar fyrddau Age Connects CNPT, BAME a CGGCNPT. Ystyriodd fod y datganiad yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Y Cynghorydd M Harvey - Parthed: Penderfyniadau a Wnaed drwy Gamau Gweithredu Brys yn ystod Argyfwng COVID-19, gan mai ef yw Maer Cyngor Tref Coedffranc, a grybwyllwyd ar dudalen 234 y pecyn adroddiadau.

Y Cynghorydd M Harvey - Parthed: Gorchymyn Traffig – Park Drive/Park Crescent, Sgiwen, gan mai ef ofynnodd am roi’r Gorchymyn Traffig hwn ar waith. Ystyriodd fod y datganiad yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 3. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Nododd yr aelodau y byddai'r camau gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn cael eu hadolygu, pan fydd y cyngor yn symud i gyfnod adfer o bandemig COVID-19.

**Penderfyniadau:**

1. Bydd y ddogfen yn cael ei hargymell i'r cyngor i'w chymeradwyo, cyn ei chyhoeddi fel atodiad i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb i wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r camau gweithredu, cyn eu cyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen sydd i'w hystyried gan y cyngor yn sylweddol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ni fu’r eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol, er y cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng 16 Ionawr a 20 Chwefror 2020. Yn ogystal, mae grwpiau cydraddoldeb lleol, fel y'u cynrychiolir ar Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol y cyngor, wedi bod yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r camau hyn.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A CHANMOLIAETH 2019/20**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

5. **ADRODDIAD ARIAN GRANT Y TRYDYDD SECTOR - DYFARNU GRANTIAU 2021/22**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd D Jones ei budd yn yr eitem hon a gadawodd ar gyfer y drafodaeth a'r pleidleisio arni.)

**Penderfyniadau:**

1. Cadarnhau'r gyllideb o £540,500 ar gyfer Grantiau i'r Trydydd Sector ar gyfer 2021/22 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo dyfarnu grantiau i sefydliadau'r trydydd sector, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Peidio â dyfarnu'r grantiau ar gyfer y ceisiadau yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. Cadarnhau swm y grant sy'n daladwy i bob Partner Strategol fel y nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Cymeradwyo grantiau i sefydliadau'r trydydd sector yn unol â Chynllun y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **PENDERFYNIADAU A WNAED DRWY GAMAU GWEITHREDU BRYS YN YSTOD ARGYFWNG COVID-19**

(Ailymunodd y Cynghorydd D Jones â'r cyfarfod.)

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 7. GWASANAETH CWNSELA CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU - BWRDD CYNLLUNIO ARDAL BAE'R GORLLEWIN

**Penderfyniadau:**

1. Cytuno ar eithrio'r gofyniad am gystadleuaeth o dan Reolau Caffael y Contract sy'n ymwneud â gwahodd tendrau (Rheol 11 o’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau) mewn perthynas ag ehangu darpariaeth y gwasanaeth cwnsela arbenigol, a hysbysir gan drawma, gan Platfform, i unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

2. Rhoi'r hawl i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol ymrwymo i gytundeb â Platfform ar gyfer parhau i ddarparu'r Gwasanaeth Cwnsela Arbenigol hwn.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau y gellir parhau i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer darparu cwnsela arbenigol, a hysbysir gan drawma, ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn rhanbarth Bae Abertawe.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 8. GWASANAETH CEFNOGI RHAGLENNI AILGARTREFU SYRIAIDD

**Penderfyniadau:**

1. Cytuno ar y Rheolau Gweithdrefnau Contractau sy'n ymwneud â gwahodd tendrau (Rheol 11 o’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau) mewn perthynas ag ehangu’r ddarpariaeth cymorth gan y Groes Goch Brydeinig ymhellach i deuluoedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghastell-nedd Port Talbot  dan y Rhaglen Adsefydlu Syriaid.

2. Bod y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol yn cael eu hawdurdodi i ymrwymo i gytundeb gyda'r Groes Goch Brydeinig er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth cymorth gwaith achos hwn.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau y gellir parhau i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer aelwydydd sy'n cael eu hadleoli i ardal Castell-nedd Port Talbot dan y Rhaglen Adsefydlu Syriaid.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 9. ADRODDIAD CYNNYDD ANSAWDD AER CNPT 2020

**Penderfyniadau:**

1. Nodi canfyddiadau Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2020, fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan y cyngor ac anfon copi at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) fel y’i nodir yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd (1995), Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon 2007 a dogfennau Polisi a Chanllawiau Technegol perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 10. POLISI CYNLLUNIO CYMRU ARGRAFFIAD 10 – YSTYRIED Y DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL, 2IL ADOLYGIAD 2020

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol fel un sy'n darparu fframwaith strategol priodol i sicrhau bod cyflenwad digonol o agregau'n cael ei gyflawni.

2. Cytuno ar y Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol a gyflwynir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd fel ffordd briodol o reoli'r cyflenwad o agregau yn Is-ranbarth Dinas Abertawe.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau a sicrhau bod fframwaith strategol priodol ar waith i alluogi cyflenwad parhaus a digonol o agregau.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 11. RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY

Diwygio'r Rhestr Gymeradwy fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w **hychwanegu** at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| ASW | 15 16 17 18 19 20 22 27 28 29 30 35 37 38 41 42 45 84 |
| Conemaster | 1 9 47 |
| Gwasanaethau Nwy Scourfield | 37 38 39 40 45 46 |
| QTech cyfleusterau Management ltd | 45 46 |

Cwmni i'w ychwanegu at gategori ychwanegol ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Thortech | 80 81 92 |

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cadw'r Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy’n gyfoes a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol, ac at ddibenion cyflenwi Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy am wahoddiad i dendro o fewn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

12. **GORCHYMYN TRAFFIG - PARK DRIVE, PARK CRESCENT, SGIWEN. CASTELL-NEDD**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, mae'r Cynghorydd M Harvey yn ailddatgan ei fudd yn yr eitem hon ac yn gadael ar gyfer y drafodaeth a’r pleidleisio arni.)

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn Gwahardd Cerbydau Modur ac Eithrio Mynediad 2020 ar gyfer Park Drive a Park Crescent, Sgiwen, Castell-nedd (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a rhoi'r cynllun ar waith ar y safle fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 13. GORCHYMYN TRAFFIG - LLETY DAFYDD - CLOS YR YSGOL, CLUN

(Mae’r Cynghorydd M Harvey yn ail-ymuno â'r cyfarfod.)

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu’r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg Arfaethedig ar gyfer y B4434 Llety Dafydd – Clos yr Ysgol, Clun - (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, dylid rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 14. GORCHYMYN TRAFFIG - PARC NEWYDD, CWRT Y CAWR, LLANSAWEL

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu’r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg Arfaethedig ar gyfer Parc Newydd - Cwrt y Cawr, Llansawel - (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, dylid rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 15. GORCHYMYN TRAFFIG - BLAENDULAIS

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu’r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Lle Parcio Unigol i'r Anabl yn Rhif 6 Rhes Bryndulais, Blaendulais SA10 9EB (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, dylid rhoi'r cynigion ar waith y safle fel y'u hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnal ei annibyniaeth a'i ansawdd bywyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer gynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 16. GORCHYMYN TRAFFIG - BRYNCOCH, CASTELL-NEDD

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad i’r Gorchymyn Gwahardd Aros ar unrhyw Adeg 2020 ar Rodfa Llewellyn, Bryncoch, Castell-nedd (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith ar y safle

fel y'i hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

17. **GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL CYNCOED - HEOL BERTHA, MARGAM**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad i'r Gorchymyn Gwahardd Aros, dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am a 5.00pm 2020 ar Heol Cyncoed a Heol Bertha, Margam, (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith ar y safle fel y'i hysbysebwyd, a rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

18. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 19, 24 a 25 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu

trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 25B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

19. **CYMORTH GRANT I FUSNESAU YR EFFEITHIR ARNYNT GAN GYFYNGIADAU MASNACHU YCHWANEGOL O 4 RHAGFYR 2020.**

**Penderfyniad:**

Derbyn yr arian grant a nodir yn yr adroddiad brys a ddosbarthwyd, a chymeradwyo talu grantiau i fusnesau cymwys ar gyfer 2020/21, fel y nodir yn yr adroddiad brys a ddosbarthwyd, ac yn unol â'r canllawiau terfynol a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r Cyngor i wneud taliadau i fusnesau cymwys yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith. Cytunodd Cadeirydd y pwyllgor craffu i'r camau gweithredu hyn. Ni fyddai unrhyw gyfle i gwestiynu'r penderfyniad hwn.

20. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

21. **RHWYDWAITH CYMORTHDALEDIG CLUDIANT I DEITHWYR (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Cytunodd swyddogion y dylid cynnwys Cyngor Sir Gâr yn yr ymgynghoriad.

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

22. **GWAITH YN CROWN WORKS, CASTELL-NEDD (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Gwahardd Rheol 11 o Reolau Gweithdrefn Contract y cyngor a rhoi cymeradwyaeth i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio benodi'r cwmni a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, i ymgymryd â gwaith yn Crown Works ac ymrwymo i gytundeb gyda'r un cwmni i hwyluso hyn.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cwmni i wneud gwaith hanfodol i atgyweirio'r to yn Crown Works

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

23. **IARD BURROWS (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i gytuno ar delerau newydd gyda'r cwmni a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ar gyfer gwaredu tir yn Iard Burrows fel a ddangosir wedi'i linellu a'i groeslinellu'n ddu ar y cynllun, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd;

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gyfarwyddo'r cwmni a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, i atgyweirio ac adeiladu uned fasnachol newydd ar

dir a gedwir gan y cyngor fel a ddangosir wedi'i ymylu'n ddu ar y cynllun, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd;

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, drafod, cwblhau ac ymwneud â dogfennau'r gwerthiant sy'n angenrheidiol i waredu'r tir ac adeiladu uned fasnachol newydd, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd;

4. Eithrio Rheol 2 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau ar gyfer adeiladu uned fasnachol newydd ar y tir sydd wedi'i ymylu'n ddu ar y cynllun a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ymrwymo i gytundeb, fel a nodwyd ynddo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi trosglwyddo tir datblygu i drydydd parti ac adeiladu uned fasnachol ar dir y cyngor ar safle Iard Burrows.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 24. PROSIECT ARBED YNNI GOLEUADAU STRYDOEDD (CAM 2) (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)

Nododd yr aelodau y byddai'r cynllun gwaith yn cael ei ddosbarthu pan fyddai ar gael.

**Penderfyniad:**

Eithrio Rheol 11 o'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau, a chymeradwyo derbyn swm o gyllid, gan y darparwr y manylir arno yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, sydd ar gael ar gyfer ail gam y prosiect a gymeradwywyd yn flaenorol, a bod y gwaith yn cael ei ddyfarnu fel gorchymyn amrywio i'r cwmni a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, er mwyn hwyluso'r hyn a nodwyd uchod.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Manteisio ar y cyllid sydd ar gael i leihau'r defnydd o ynni a chostau cynnal a chadw.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

25. **AD-DALU ARIAN Y GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y dylai adran y Ward yr Effeithir arni o'r adroddiad ddarllen 'Margam' ac nid 'Mynachlog Nedd, Castell-nedd'.

**Penderfyniad:**

Hepgor swm llawn yr arian grant, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, am y rhesymau a roddwyd yn yr un adroddiad.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod yr Awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn o dan Ddeddf Grantiau Tai Adeiladu ac Adfywio 1996: Grant Cyfleusterau i'r Anabl (amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu dalu'r grant) - Caniatâd Cyffredinol 2008.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**